YMDDIRIEDOLAETH GOFALWYR
Gogledd Cymru
Gwasanaethau Gofal Croesffyrdd

CARERS TRUST
North Wales
Crossroads Care Services



# GOFALU AM OFALWYR

# YDYCH CHI'N OFALWR? GALLWN NI HELPU

Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru yn elusen gofrestredig ac yn Bartner Rhwydwaith i'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr, sef sefydliad cenedlaethol y DU o elusennau gofalwyr lleol. Rydym wedi bod yn darparu cymorth ymarferol ac emosiynol i ofalwyr di-dâl ledled Gogledd Cymru ers 1980.

Rydym yn gofrestredig ag Arolygiaeth Gofal Cymru i ddarparu gwasanaethau i oedolion a phlant ac rydym yn Ddarparwr Gofal Cymeradwy i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r awdurdodau lleol ledled Gogledd Cymru. Felly, gallwn ni roi ein cymorth i ofalwyr a phobl sydd ag anghenion gofalu o bob oedran a phob cyflwr iechyd.

## ELUSEN YDYN NI, FELLY RYDYM YN GOFALU AM BOBL NID ELW


Swyddfeydd 39 a 40, Parc Menter Quinton Hazell,
Ffordd Glan y Wern, Bae Colwyn, Conwy, LL28 5BS.

Ffôn: 01492 542212

Gwefan: www.nwcrossroads.org.uk
E-bost: northwales@ctnw.org.uk



Rhif Elusen Gofrestredig 1119142
Rhif Cofrestredig AGC W030001450

Mae Gwasanaethau Gofal Croesffyrdd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru'n gwmni cyfyngedig trwy warant sy'n gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, Rhif 6205600



©2023


GWASANAETHAU LLEOL YR YMDDIRIEDOLAETH GOFALWYR
Yng Ngogledd Cymru

# BETH WNAWN NI?

Rydyn ni'n cynnig amrywiaeth fawr o wasanaethau i ofalwyr di-dâl, ond ein gwasanaeth craidd yw rhoi gofal seibiant (neu ofal amnewid neu 'wasanaeth eistedd') yng nghartrefi'r bobl eu hunain neu yn y gymuned. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r gofalwyr gael amser iddyn nhw eu hunain gan wybod bod y person dan eu gofal mewn dwylo diogel. Bydd pob gofalwr a'r person sydd dan eu gofal yn derbyn gwasanaeth unigryw sy'n amrywio o gadw cwmni ar lefel isel i roi lefel uchel o ofal personol. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i bob grŵp oedran, anabledd neu gyflwr iechyd, a gallwn ei ddarparu naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

# MAE SEIBIANT I OFALWYR YN ACHUBIAETH NID YN FOETH



Efallai mai'r awdurdodau lleol sy'n ariannu gofal seibiant yn eich cartref eich hun, ond i gael rhagor o wybodaeth a chyngor ynglŷn â sut i gael gafael ar y math yma o gymorth, ffoniwch ni ar **01492 542212**.

Hefyd, gallwch ddewis talu'n uniongyrchol am y math yma o ofal – dyma ein gwasanaeth **Gofal Gwalia**. I weld beth yw ein prisiau cystadleuol, ffoniwch y rhif uchod.

# EIN STAFF

Mae ein staff yn weithwyr sy'n derbyn cyflog, dydyn ni ddim yn defnyddio gwirfoddolwyr i roi gofal seibiant. Mae ein staff i gyd wedi eu hyfforddi i safon uchel ac yn sensitif i bwysau emosiynol y gwaith o ofalu. Cyn belled ag y bo modd, bydd yr un Gweithiwr Cymorth Gofalwyr yn ymweld â'r un teulu. Felly, dydy hi ddim yn syndod ein bod yn creu perthnasoedd hir a dibynadwy gyda'r bobl a gefnogwn. Mae pob Gweithiwr Cymorth i Ofalwyr wedi cael gwiriad DBS manylach diweddar ac wedi eu cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.



**“ROEDD FY NGWEITHIWR CYMORTH INNAU’N LLYGAD EI LLE BOB TRO, ROEDD HI’N GEFNOGOL IAWN AC YN TAWELU FY MEDDWL.”**

## RHAGOR O WASANAETHAU...

# PAN FYDD GOFALWYR YN SÂL NEU'N MYND I APWYNTIADAU IECHYD

Os ydych yn ofalwr ac yn dioddef o iechyd gwael eich hun neu os oes gennych apwyntiad iechyd i fynd iddo ond dydych chi'n methu gadael y person sydd dan eich gofal gartref ar eu pennau eu hunain, gallwn ni roi gofal seibiant/amnewid tymor byr i chi fel y gallwch chi edrych ar eich ôl eich hun. Gall apwyntiadau iechyd gynnwys tripiau at yr optegydd, y deintydd, y meddyg teulu, apwyntiadau ysbyty, triniaeth, ffisiotherapi, ac ati. Gallwn roi hyd at 12 wythnos o gymorth i chi dros gyfnod o 12 mis wedi ei ariannu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

## DEMENTIA

Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru'n cynnig Cymorth Dementia arbenigol ac rydym yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu'r **Llwybr Cymorth Cof** ledled Gogledd Cymru. Os oes gennych chi, neu'r person dan eich gofal, nam gwybyddol neu ddiagnosis dementia, mae gan ein Canolfannau Dementia amrywiaeth o adnoddau i chi.

Cafodd ein Canolfannau Dementia eu llunio ar y cyd gan ddefnyddio arbenigedd y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau dementia yng Ngogledd Cymru. Mae ganddyn nhw'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw, ac rydym yn esblygu drwy'r amser i ddarparu siop un alwad ar gyfer Dementia.

# "RYDYM YN GWIR WERTHFAWROGI EICH GWYBODAETH A'CH PROFIAD PERSONOL A'R ANGERDD SYDD GENNYCH I HELPU TEULUOEDD DRWY RYWBETH YR YDYCH YN EI DDEALL MOR DDA."

I ganfod lle mae eich Canolfan Dementia agosaf a beth sy'n digwydd yno, ffoniwch ein Tîm Dementia ar **01492 542212**.



“MAE’R GWASANAETH HWN WEDI BOD YN ACHUBIAETH LWYR I MI A’M TEULU. MAE’R PLANT WEDI MWYNHAU’R TEIMLAD O ANNIBYNIAETH A GÂNT GYDA CHI YN FAWR IAWN.”

# GWASANAETHAU PLANT AC OEDOLION IFANC

Mae ein gwasanaethau plant ac oedolion ifanc yn cefnogi pobl ifanc 0-25 oed, eu rhieni-ofalwyr a'u teuluoedd drwy gynnig cyfle iddyn nhw gael seibiant a chyfle i gymdeithasu gyda chefnogaeth. Mae gennym staff profiadol, wedi'u hyfforddi sy'n gweithio gyda phlant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau, ac maen nhw'n darparu cymorth 1-1 gartref ac yn y gymuned.

Rydym yn darparu nifer o grwpiau, tripiau a gweithgareddau gwahanol lle gall pobl ifanc ddod at ei gilydd i gael hwyl a gwneud ffrindiau, cynyddu eu sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu, eu hyder a'u hunan-barch, a hynny oll tra byddent dan ofal ein staff profiadol sy'n gallu rhoi gofal personol a rhoi meddyginiaeth achub os oes angen.

Mae gennym ni hefyd Swyddog Lles Rhieni/Gofalwyr sy'n cynnig cymorth ymarferol ac emosiynol i deuluoedd. Mae'r gwasanaeth yn gwbl berson-ganolog, wedi ei deilwra i anghenion ac amgylchiadau'r teulu unigol ei hun.

# LLES

Mae ein Tîm Lles a Chynhwysiant yn gweithio yn y gymuned a gallant hefyd ymweld â gofalwyr yn eu cartrefi eu hunain i roi cyngor, arweiniad a chymorth ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud â gofalu. Gall y Tîm ddarparu clust i wrando i ofalwyr di-dâl o bob grŵp oedran, a gallant helpu i leihau teimladau ynysig ac unigrwydd drwy roi pobl mewn cysylltiad â gwasanaethau eraill sydd ar gael yn eu hardaloedd lleol.

Yn ogystal â hynny, gall Swyddogion Lles edrych ar ffyrdd i ofalwyr sicrhau'r incwm gorau iddynt eu hunain drwy roi cyngor am gadw cyllideb, gwneud arbedion costau ac arbed ynni. Gallant hefyd helpu i weld a yw'r gofalwyr yn derbyn y budd-daliadau cywir a gwneud cais am grantiau a allai fod ar gael iddyn nhw.

Mae ein Tîm Lles ar gael y tu allan i'r oriau gwaith arferol i sicrhau nad oes rhwystrau i atal pobl rhag defnyddio'r gwasanaeth yma. Os hoffech gysylltu â'n Tîm Lles, ffoniwch **01492 542212** a gallwn eich rhoi chi mewn cysylltiad â'ch Swyddog Lles agosaf.

**YMDDIRIEDOLAETH GOFALWYR**
**EIN HARBENIGEDD**
Yng Ngogledd Cymru

## LLYWODRAETHIANT

Yn arwain Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru gydag arbenigedd mae ein Bwrdd o Ymddiriedolwyr sy'n dod â chyfoeth o wybodaeth, sgiliau a phrofiad i'r sefydliad. Mae ganddyn nhw hefyd ddealltwriaeth o'r heriau a'r problemau y mae gofalwyr yn eu hwynebu am fod y mwyafrif yn ofalwyr neu'n gyn-ofalwyr eu hunain. Os oes gennych ddiddordeb mewn dod yn Ymddiriedolwyr, cysylltwch â ni.

# RYDYM YN CYNNIG TAWELWCH MEDDWL I OFALWYR



## ANSAWDD

Rydym yn adnabyddus am ansawdd ein gwasanaethau, a gwyddom fod gwasanaeth dibynadwy, hyblyg a chyson yn bwysig i chi. Rydym yn gofyn yn rheolaidd am adborth gan ein cwsmeriaid i'n helpu i geisio gwneud gwelliannau. Hefyd, rydym wedi derbyn ISO 9001 achrededig gan UKAS, sef safon system rheoli ansawdd mwyaf adnabyddus y byd. Mae'r dyfarniad yn dangos yn swyddogol ein bod ni'n gallu darparu gwasanaethau'n gyson sy'n ateb gofynion y cwsmer a'r gofynion statudol a rheoleiddiol.

## AROLYGIAETH GOFAL CYMRU

Arolygiaeth Gofal Cymru yw rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Fel rheoleiddwyr, mae AGC yn rhoi sicrhad am ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarparwn. I weld ein Hadroddiad Arolwg diweddaraf gan Arolygiaeth Gofal Cymru er mwyn sicrhau ansawdd ein gwasanaethau, ewch i'w gwefan: https://www.arolygiaethgofal.cymru/

## EIN CEFNOGI NI

Rydym yn sefydliad proffesiynol, ond rydym hefyd yn elusen ac rydym angen cymorth ein cymuned. Po fwyaf o roddion a dderbyniwn, mwyaf yn y byd o ofalwyr y gallwn eu cefnogi yng Ngogledd Cymru. Rydym yn gwarantu ein bod yn gwario pob rhodd yn lleol yn y sir y daeth y rhodd ohoni.